**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Adroddiad Blynyddol i'r Cynulliad 2004-05**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn ôl Rheol Sefydlog 9.9 mae'n ofynnol i'r holl bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar y camau a gymerwyd ganddynt i gyflawni eu blaenraglenni gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005.

## 2. Aelodaeth

2.1 Yn ystod y flwyddyn bu'r canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor:

| | |
|---|---|
| Peter Black (Cadeirydd) | Irene James |
| Jane Davidson (Gweinidog) | Denise Idris-Jones |
| Christine Chapman (Dirprwy Weinidog) (#) | Janet Ryder |
| Jeff Cuthbert | Owen John Thomas |
| David Davies | Leighton Andrews (+) |
| Mark Isherwood | |
| (#) O fis Rhagfyr 2004 | (+) Tan fis Rhagfyr 2004 |

## 3. Cyfarfodydd

3.1 Yn ystod cyfnod yr adroddiad, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol 16 gwaith.

## 4. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

4.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, sy'n cwmpasu bron i bob agwedd ar addysg a hyfforddiant; gweler Atodiad 1.

4.2 Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog ac maent i'w gweld yn Atodiad 2.

## 5. Nodau ac Amcanion

5.1 Ar 18 Mehefin 2003, cymeradwywyd blaenraglen waith strategol y Pwyllgor a oedd yn amlinellu ei nodau a'i amcanion o fis Mai 2004 tan fis Rhagfyr 2005. Ei brif amcan oedd hyrwyddo ac annog camau hirdymor a pharhaus i wella ansawdd addysg yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar estyn cyfleoedd addysg a dysgu gydol oes o ansawdd uchel i bawb yng Nghymru.

## 6. Datblygu ac Adolygu Polisi (Rheol Sefydlog 9.7)

6.1 Mae'r Pwyllgor wedi cynnal dau adolygiad polisi yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn: anghenion addysgol arbennig a chludiant i'r ysgol. Yn ystod yr ymchwiliadau hyn, casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer fawr o unigolion a sefydliadau. Bu Aelodau'r Pwyllgor yn ymweld ag ysgolion yn y Gogledd a'r De ac yn cyfarfod â rhieni, athrawon a llywodraethwyr i gasglu rhagor o dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad o anghenion addysgol arbennig.

6.2 I'w helpu â'i adolygiad o anghenion addysgol arbennig, penododd y Pwyllgor grwp cyfeirio allanol. Ymhlith aelodau'r grwp yr oedd cynrychiolwyr sector addysg a hyfforddiant Cymru a oedd â diddordeb arbennig yn y maes neu a oedd yn arbenigo ynddo. Yn ystod cam cyntaf yr adolygiad, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar nodi ac ymyrryd yn gynnar. Cyhoeddodd ei adroddiad ym mis Tachwedd 2004.

6.3 I'w gynorthwyo â'r adolygiad o gludiant i'r ysgol, penododd y Pwyllgor gynghorydd arbenigol, sef Alan Kreppel. Cyhoeddir yr adroddiad ar gludiant i'r ysgol ym mis Ebrill 2005.

6.4 Ym mis Chwefror 2005, cychwynnodd y Pwyllgor ar ail gam ei adolygiad o anghenion addysgol arbennig sy'n canolbwyntio ar y fframwaith asesu statudol. Mae'r Grwp Cyfeirio Allanol a sefydlwyd yn ystod cam cyntaf yr adolygiad yn dal i gynghori'r Pwyllgor.

6.5 Bydd y Pwyllgor yn cynnal ymgynghoriad ysgrifenedig a bydd hefyd yn treialu fforwm ar-lein rhyngweithiol yn ystod y gwanwyn a'r haf 2005. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed sylwadau plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig, ynghyd â'u rhieni a'u gofalwyr. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu rhoi adroddiad i'r Cynulliad ym mis Ionawr 2006.

## 7. Craffu ar Ddeddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8)

7.1 Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor yn cael rhestr o is-ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gwahoddir yr Aelodau i ddewis deddfwriaeth oddi ar y rhestrau hynny i graffu arni fel Pwyllgor.

7.2 Bu'r Pwyllgor yn ystyried wyth darn o is-ddeddfwriaeth, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno. Mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad 3.

7.3 Cyfeiriwyd dau Fesur at y Pwyllgor ar ôl dadl mewn cyfarfod llawn ym mis Rhagfyr ar Araith y Frenhines i'r Senedd: y Mesur Drafft ar Gludiant i'r Ysgol a'r Mesur Addysg. Bu'n ystyried y naill ar 28 Ebrill 2004 a'r llall ar 19 Ionawr 2005.

## 8. Monitro a Chraffu (Rheol Sefydlog 9.7)

8.1 Mae'r Pwyllgor wedi craffu'n rheolaidd ar waith y Gweinidog o ran perfformiad Llywodraeth y Cynulliad, a hynny drwy drafod adroddiadau'r Gweinidog ym mhob cyfarfod.

8.2 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau penodol i graffu ar waith Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa), a hynny ar 7 Gorffennaf, 22 Medi ac 1 Rhagfyr 2004. Bu'r Aelodau yn canolbwyntio ar y fframwaith cynllunio a chyllido arfaethedig ar gyfer addysg a hyfforddiant, ynghyd â'r camau i uno ELWa â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006.

8.3 Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ar ail gam yr Adolygiad Pum Mlynedd o ACCAC yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2004. Bu'r ymgynghorwyr a gynhaliodd yr adolygiad, sef Open Direction Ltd, yn ateb cwestiynau'r Pwyllgor.

8.4 Ar 27 Ionawr 2005, bu'r Comisiynydd Plant i gyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i drafod ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2003-04.

8.5 Ar 9 Mawrth 2005, bu Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cyflwyno i'r Pwyllgor brif bwyntiau ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2003-04.

8.6 Yn ystod y cyfnod o dan sylw, bu grwpiau rapporteur y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ymweld â'r sefydliadau addysg a hyfforddiant a ganlyn: Estyn (yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru), Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, Gyrfa Cymru, Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa) a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Buont yn trafod perfformiad y sefydliadau hynny o ran bodloni'r amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bu'r grwpiau yn adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor. Bwriedir ymweld ag ACCAC (y corff sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a chymwysterau yng Nghymru) ym mis Mehefin 2005.

**9. Penodiadau (Rheol Sefydlog 9.8)**

9.1 Peter Black (Cadeirydd) a Jeff Cuthbert, ynghyd â'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, a enwebwyd gan y Pwyllgor i ymdrin â phenodiadau cyhoeddus. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, ymgynghorwyd â'r cynrychiolwyr ynghylch wyth penodiad.

**10. Cyllideb y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8)**

10.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried cyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2005-06 a rhoddodd sylwadau arni. Yn Atodiad 4, ceir copi o lythyr y Cadeirydd,

dyddiedig 16 Tachwedd 2004, yn amlinellu blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y gyllideb.

**11. Materion Trawsbynciol**

11.1 Estynnodd y Pwyllgor wahoddiad i David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ddod i bob cyfarfod i glywed tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad o anghenion addysgol arbennig ac i lunio adroddiad y Pwyllgor.

11.2 Yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2004, bu'r Pwyllgor yn ystyried y camau a gymerwyd i roi ar waith gynllun gweithredu datblygu cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad.

11.3 Bu Aelodau'r Pwyllgor yn cymryd rhan mewn cydgyfarfod pwyllgor i ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant; gweler paragraff 8.4.

**12. Y Cynlluniau Statudol**

12.1 Yn ei waith, mae'r Pwyllgor wedi cymryd i ystyriaeth gynlluniau statudol y Cynulliad ar gyfer y berthynas rhyngddo a'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, ynghyd â'r cynllun datblygu cynaliadwy.

**13. Y Rhaglen ar gyfer y Dyfodol**

13.1 Amlinellir blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer 2005-06 yn ei flaenraglen waith strategol a gymeradwywyd ar 20 Ebrill 2005. Yn eu plith y mae:

- Craffu ar waith y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes;
- Adolygiad Polisi - Anghenion Addysgol Arbennig (Rhan 2): Y Fframwaith Asesu Statudol;
- Adolygiad Polisi - Anghenion Addysgol Arbennig (Rhan 3): Pontio;
- Ystyried cyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad;
- Craffu ar is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol;
- Craffu ar sefydliadau addysg a hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys cynnal rhagor o ymweliadau rapporteur.

**Peter Black AC**
**Cadeirydd**

**Atodiad 1**

**Portffolio'r Pwyllgor**

Yn unol ag adran 57(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae portffolio'r Pwyllgor yn cyfateb i bortffolio Gweinidog y Cynulliad:

- Addysg feithrin a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru;
- Safonau addysg mewn ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys gweithgareddau Estyn;
- Trefniadaeth ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys cymeradwyo uno a chau ysgolion;
- Goruchwylio'r awdurdodau addysg lleol yng Nghymru;
- Y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru;
- Unrhyw faterion sy'n ymwneud â disgyblion ag anghenion addysg arbennig;
- Holl weithgareddau Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru a materion sy'n ymwneud â chymwysterau academaidd yn gyffredinol;
- Ariannu ysgolion sefydledig (ysgolion a gynhelir â grant gynt) yng Nghymru;
- Safonau addysgu yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;
- Arfarnu athrawon yng Nghymru, ond **nid** tâl ac amodau athrawon (nid yw tâl athrawon ac ati wedi ei ddatganoli);
- Polisïau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru;
- Holl weithgareddau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant;
- Pwerau sy'n ymwneud â ffioedd dysgu a chymorth i fyfyrwyr a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn Neddf Addysg Uwch 2004;
- Polisi gyrfaoedd, gan gynnwys holl weithgareddau cwmnïau'r Gwasanaeth Gyrfaoedd;
- Gwasanaethau ieuenctid a materion ieuenctid yn gyffredinol;
- Darparu a chefnogi hyfforddiant seiliedig ar waith a hyfforddiant galwedigaethol arall yng Nghymru;
- Arolygu darparwyr hyfforddiant a chwmnïau'r gwasanaeth gyrfaoedd;
- Darparu rhaglenni cyflogaeth o ochr y cyflenwyr, gan gynnwys y Fargen Newydd, ond **heb gynnwys** rhaglenni eraill a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyflogaeth (nad yw wedi ei ddatganoli).

**Atodiad 2**

**Cyfrifoldebau'r Pwyllgor**

Mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn un o saith pwyllgor pwnc. Mae cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc wedi eu nodi yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

9.7. Bydd pob pwyllgor pwnc yn

i. cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Gweinidog perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
ii. cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu;
iii. cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd yn

i. cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22 (sef Rheol Sefydlog 24 erbyn hyn);
ii. rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19 (sef Rheol Sefydlog 21 erbyn hyn);
iii. cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion) (sef Rheol Sefydlog 23 erbyn hyn);
iv. cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20 (sef Rheol Sefydlog 22 erbyn hyn);
v. ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

O dan Reol Sefydlog 9.9, rhaid bod gan bwyllgorau pwnc raglen waith dreigl sy'n cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf.

**Atodiad 3**

**Yr Is-ddeddfwriaeth a gafodd ei hystyried yn ystod cyfnod yr adroddiad:**

ELL-07-05 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon) (Cymru) 2005

ELL-13-04 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004;

ELL-14-04 Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004;

ELL-15-04 Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2004;

ELL-16-04 Rheoliadau Athrawon Ysgol (Diwygiadau Canlyniadol) 2004;

ELL-29-04 Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005;

ELL-37-04 Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) (Rhif 2) 2004;

ELL-38-04 Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) (Cymru) 2004.

**Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

**EDUCATION AND LIFELONG LEARNING COMMITTEE**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Jane Davidson AC
Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NQ99 1

Eich cyf / Your ref:
Ein cyf / Our ref:

16 Tachwedd 2004

Annwyl Weinidog

**CYLCH CYNLLUNIO'R GYLLIDEB 2004**

Diolch yn fawr am eich cyflwyniad i'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft yr wythnos diwethaf. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi eich bod wedi cymryd i ystyriaeth ei brif flaenoriaethau, fel ag y'u nodwyd yn fy llythyr ar 2 Mehefin. Roedd y wybodaeth a roddwyd yn Atodiad 4 i'ch papur, ynghylch Asesiadau sy'n Seiliedig ar Ddangosyddion o wariant yr Awdurdodau Lleol ar addysg, o gymorth mawr.

Ar ran y Pwyllgor, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn mynd i'r afael â'r materion a ganlyn:

**Addysg Bellach**

- Mae'r Pwyllgor am gael eglurhad pellach o lefelau'r cyllid refeniw ar gyfer y sector addysg bellach yn y dyfodol, a hynny ar ben yr arian a neilltuwyd i gysoni tâl ac amodau darlithwyr coleg ac athrawon chweched dosbarth;
- Mae'r Pwyllgor yn credu bod arian i ehangu mynediad yn arbennig o bwysig;
- Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r cyllid arfaethedig ar gyfer ELWa ond yn codi tua 2% rhwng 2007/08 a 2006/07 - mae hyn yn awgrymu cwtogiad mewn gwirionedd;

- Mae'r Pwyllgor yn nodi cynnydd sylweddol o ran y cyllid ar gyfer 'Dysgu 14-19 yng Nghymru' yn 2007/08 o'i gymharu â lefelau cymharol fach ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf. Byddai'n croesawu eglurhad o'r rhesymau dros y dyraniad hwn.

**Addysg Uwch**

- Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig iawn sicrhau cyllid digonol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ac mae'n edrych ymlaen at drafod canfyddiadau cychwynnol yr adroddiad sy'n cael ei baratoi gan yr Athro Teresa Rees a'i gweithgor;
- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid arfaethedig ar gyfer ailgyflunio'r sector addysg uwch, yn unol â strategaeth 'Ymgeisio yn Uwch', ac mae am gael adroddiadau rheolaidd ar hynt y gwaith;
- Mae'r Pwyllgor am wybod beth fydd cost debygol cefnogi sefydliadau addysg uwch yn 2006/07, o gofio ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i beidio â chyflwyno ffioedd amrywiadwy yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn. Deallaf y bydd y gost ychwanegol hon yn cael ei thalu o'r cronfeydd wrth gefn.

**Ysgolion**

- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r buddsoddiad i wella cyflwr adeiladau ysgol; tua £139 miliwn y flwyddyn o 2005/06. Byddai o gymorth pe baech yn egluro faint o gyllid cyfalaf a gaiff ei ddarparu'n uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad at y diben hwn a faint a gaiff ei ddarparu gan y sector preifat drwy brosiectau Menter Cyllid Preifat;
- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid arfaethedig i roi'r Cytundeb Llwyth Gwaith ar waith ac mae am gael adroddiadau rheolaidd ar hynt y gwaith.

**Iaith Pawb**

- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ar gyfer strategaeth Iaith Pawb, yn enwedig y cyllid i helpu athrawon i wella eu sgiliau Cymraeg drwy gyfnodau sabathol, ac mae am gael adroddiadau rheolaidd ar hynt y gwaith.

**Anghenion Addysgol Arbennig**

- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid gwerth £3 miliwn dros y tair blynedd nesaf i ddatblygu trefniadau comisiynu ar y cyd a chronni cyllidebau ar gyfer cyrff iechyd ac addysg, a hynny er mwyn darparu gwasanaethau lleferydd ac iaith;
- Bydd y Pwyllgor yn lansio'r adroddiad ar gam cyntaf ei adolygiad o AAA yn ddiweddarach y mis hwn. Pan fyddwch yn ymateb maes o law, rwy'n mawr obeithio y byddwch yn neilltuo arian ychwanegol ar gyfer AAA er mwyn helpu i roi argymhellion y Pwyllgor ar waith.

Yn gywir

**Peter Black AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Copi at Sue Essex AC, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus